OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 3052 (Cy.229)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*1 Tachwedd 2005*
Yn dod i rym	- -	*11 Tachwedd 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymghynghori fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 11 Tachwedd 2005.

Diwygiadau i Reoliadau Mêl 2003

2. Diwygir Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003(**4**) yn unol â rheoliad 3.

3. Yn Atodlen 1, Nodyn 1, yn lle'r geiriau "a 6" rhodder y geiriau—

"6 a 7".

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 2003/3044 (Cy.288).